**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 18fed Mehefin 2026 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Ciliau Aeron**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Nigel Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Robert Davies, Helen Evans, Eirlys James-Evans, Arwel Jones,
Clerc: Denfer Morgan

**356 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Michelle, Gary Evans, Tina Jones, Alwen Thomas ac Iwan Thomas am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**357 Cofnodion y Cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 21ain Mai 2026**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 21ain Mai 2026.

**358 Materion Cylidol**

**PENDERFYNWYD**

**i)** talu'r canlynol:

Gwyn Jones (Archwilydd Mewnol) - £100

Zurich Municipal (Adnewyddu yswiriannau) - £452.23

*Cyflog y Clerc (Ebr-Mai-Meh):*
Denfer Morgan - £387.94
CThEF (TWE) - £96.98

**ii)** cymeradwyo Cyfrifon Blynyddol 2025-26, fel a archwiliwyd gan yr Archwilydd Mewnol;

**iii)** nodi Adroddiad yr Achwilydd Mewnol a chymryd camau i ddelio gyda'r materion canlynol a godwyd ganddo:

- cafodd Neuadd Bentref Ciliau Aeron ei dalu ddwywaith am anfoneb a dylid cael ad-daliad neu ystyried un taliad fel blaendal; a dylai'r Clerc gymryd camau i osgoi gwneud hyn eto.
- Mae angen hawlio ad-daliad am TAW
- Dylid adolygu asedau gan y Cyngor yn rheolaidd a chofnodi unrhyw newidiadau, gan gynnwys ei gwerth.

**359 Mynwent Eglwys y Drindod Sanctaidd, Cilcennin**

Rhoddwd ystryriaeth i'r ateb a dderbyniwyd oddi wrth Awdurdodau'r Eglwys, a oedd yn dweud fod tystiolaeth gan dri plwyfolyn wedi cael ei gasglu er mwyn profi fod y darn hwnnw o'r fynwent nad oedd wedi ei gofrestru wedi cael ei ddefnyddio dros y blynyddoedd gan bobl lleol, a bod y tystiolaeth hwn wedi ei

roddi i'w cyfreithwyr. Disgwylid nawr i'r cyfreithwyr hynny gwerthuso'r tystiolaeth hwn a phenderfynnu os oedd yn ddigon cadarn i fwrw mlaen gyda'r cofrestriad tir.

**PENDERFYNWYD** rhannu'r gwvbodaeth hwn gyda chyfreithiwr y Cyngor a gofyn iddo bwyso ar gyfreithwyr yr Eglwys am benderfyniad di-oed.

**360 Unrhyw Fater Arall**

a) Nodwyd y datblygiadau canlynol:
   - Roedd tocio'r gwrychoedd ar hyd rhan o'r B4339 yn rhaglen waith y Cyngor Sir a dylai gael ei wneud cyn ddiwedd Awst
   - Fe fyddai'r gwaith o ailosod yr arwydd 'Ildiwch' ger Tŷ Mawr yn cael ei wneud yn fuan

b) Gofynwyd i'r Clerc ddwyn sylw'r Cyngor Sir at y canlynol;
   - twll mewn clawdd ar y ffordd fach yn arwain o Crossway i Lanerchaeron; a hefyd y golau stryd diffygiol ar yr A482 ger Glynderwen, Ciliau Aeron
   - cyflwr gwael yr U5182 o'r gyffordd gyda'r A482.

c) Dywedodd y Clerc fod Tyglyn Aeron ar gael ar nos Wener 2il Hydref ar gyfer swper dathlu'r Cyngor ac i fwrw mlaen i'w gadw.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:30pm